Grant Gwisg Ysgol

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mae'n bosib y byddwch yn gymwys am grant gan Lywodraeth Cymru i'ch helpu i brynu gwisg ysgol i'ch plentyn os ydych ar incwm isel.

Faint sydd ar gael?

Grant o £105 ar gyfer pob plentyn cymwys.

Pwy sy'n gymwys i'w gael?

- Dysgwyr sy'n cychwyn ar Flwyddyn 7 mewn ysgol uwchradd yng Nghymru yn ystod blwyddyn ysgol 2017/18 ac sy'n gymwys i gael cinio ysgol am ddim.

- Dysgwyr mewn ysgolion arbennig, canolfannau adnoddau anghenion arbennig ac unedau cyfeirio disgyblion yng Nghymru sy'n 11 oed ar ddechrau blwyddyn ysgol 2017/18 ac sy'n gymwys i gael cinio ysgol am ddim.

Sut ydw i'n gwneud cais?

Dylech wneud cais i'ch awdurdod lleol am y grant hwn. Bydd ysgol eich plentyn yn gallu rhoi'r cyfeiriad i chi.

Am awgrymiadau a syniadau defnyddiol yn ymwneud ag addysg eich plentyn ewch i **www.facebook.com/dechraucartref**

OGL © Hawlfraint y Goron 2017 WG31786